Hawdd ei Ddeall

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

# Bwlio ac aflonyddu

## Polisi i helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn dda



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Goleg Caerdydd a'r Fro**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r '**Polisi Bwlio ac Aflonyddu**'.

**Ebrill 2022**

# Bwlio ac aflonyddu



**Bwlio** yw pan fydd rhywun yn gas i chi neu'n achosi niwed i chi. Gall bwlio fod yn bethau fel:

- dweud pethau cas wrthych chi neu amdanoch chi
- cael eich anwybyddu neu eich gadael allan
- cael eich taro.



Mae **aflonyddu** yn ymddygiad mynych sy'n gwneud i chi deimlo'n ofidus, yn flin, yn gywilyddus neu'n ofnus.

Rydyn ni am i bob myfyriwr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro:




- gael eu trin yn deg a gyda pharch



- teimlo eu bod nhw'n gallu gwneud eu gorau a chymryd rhan yng ngweithgareddau'r coleg




- ennill y sgiliau y mae eu hangen mewn lle diogel sy'n bodloni eu hanghenion.



Rydyn ni'n cymryd **bwlio** ac **aflonyddu** o ddifrif calon.




Rydyn ni am i'n holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr fod yn ymwybodol o ba mor bwysig mae hyn.



Mae'r polisi hwn yn cynnwys pawb sy'n ymwneud â'r coleg, lle bynnag y maen nhw.




Mae'n cynnwys ymddygiad mewn bywyd go iawn, ac wrth ddefnyddio pethau fel:

- y rhyngrwyd
- ffonau
- e-byst,
- gemau
- safleoedd rhyngweithio cymdeithasol, fel Facebook.




Mae rhaid  i bobl sy'n mynd i Goleg Caerdydd a'r Fro gael eu **diogelu** a'u hamddiffyn rhag niwed.

Mae **diogelu** yn golygu'r pethau rydyn ni'n eu rhoi ar waith i helpu i gadw pobl yn ddiogel.



Rydyn ni am i fyfyrwyr deimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain. Rydyn ni am wneud yn siŵr bod eu lles yn cael ei warchod.

**Byddwn ni'n gwneud yn siŵr:**



- Bod pawb sy'n ymwneud â'r coleg yn gwybod nad ydyn ni'n derbyn unrhyw **fwlio** neu **aflonyddu**.



- Ein bod ni'n delio â phob achos o **fwlio** ac **aflonyddu**'n dda. Ac yn cefnogi pobl.



- Ein bod ni'n rhoi pethau ar waith i helpu i stopio **bwlio** ac **aflonyddu** rhag digwydd.



- Bod pobl yn gwybod sut rydyn ni'n delio â **bwlio** ac **aflonyddu**. Ac yn gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod beth i'w wneud os bydd e'n digwydd.



- Bod pobl yn deall beth yw **bwlio** ac **aflonyddu**, a pha niwed mae'n gallu ei achosi. Byddwn ni'n gwneud hyn drwy hyfforddi staff a chynnal sesiynau cynefino i fyfyrwyr.



- Rydyn ni'n cofnodi pryd mae **bwlio** ac **aflonyddu** yn digwydd. Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr ein bod ni'n delio â fe yn briodol bob amser.



- yddwn ni'n gwirio'r rheolau rydyn ni'n eu gwneud am **fwlio** ac **aflonyddu** yn aml. I wneud yn siŵr eu bod nhw'n gyfoes.



- Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod rhywun yn gyfrifol am faterion **diogelu**.



- Byddwn ni'n ymateb i bob mater sy'n ymwneud â **bwlio** ac **aflonyddu**. Ac yn cefnogi pobl y mae'n effeithio arnyn nhw.

**Mae rhaid i'r holl staff:**



- Barchu pob dysgwr




- Gwybod y rheolau ar gyfer delio â **bwlio** ac **aflonyddu**



- Cefnogi dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan **fwlio** ac **aflonyddu**.

**Mae rhaid i bob dysgwr:**



- Ddysgu am reolau'r coleg ynghylch **bwlio** ac **aflonyddu.**




- Dilyn y rheolau



Mae rhaid i ymwelwyr â'r coleg hefyd ddilyn y rheolau ynghylch **bwlio** ac **aflonyddu**.




I wneud y polisi hwn, rydyn ni wedi edrych ar ganllawiau gan Lywodraeth Cymru â'r teitl: Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, cam-fanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion.

# Geiriau anodd

## Aflonyddu

Mae aflonyddu yn ymddygiad mynych sy'n gwneud i chi deimlo'n ofidus, yn flin, yn gywilyddus neu'n ofnus.

## Bwlio

Bwlio yw pan fydd rhywun yn gas i chi neu'n achosi niwed i chi. Gall bwlio fod yn bethau fel:

- dweud pethau cas wrthych chi neu amdanoch chi
- cael eich anwybyddu neu eich gadael allan
- cael eich taro.

## Diogelu

Mae hyn yn golygu'r pethau rydyn ni'n eu rhoi ar waith i helpu i gadw pobl yn ddiogel.